



# CREU'R CYSYLLTIADAU RHWNG TIR A MÔR

safle tirweddau arfordirol gwarchodedig yn amgylchedd y môr



## rhagair

Mae pwysigrwydd amgylchedd y môr a thirweddau arfordirol gwarchodedig, y naill i'r llall, yn ymddangos yn ddigon amlwg. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach, gwelwn fod y cyswllt rhwng y ddau yn fwy cymhleth o lawer na'r hyn sy'n amlwg ar y dechrau, a bod angen astudiaeth sylweddol ac ystod lawn o gamau newydd ar reolwyr yr ardaloedd hyn sydd o bwys cenedlaethol.

Mae Ffederasiwn Europarc, ac Adran Ynysoedd yr Iwerydd (Atlantic Isles Section) yn arbennig, wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n wynebu tirweddau gwarchodedig lle mae'r tir a'r môr yn cwrdd. Daeth un o'r heriau hyn i'r amlwg mewn seminar a gynhaliwyd gan *Europarc Atlantic Isles* ym mis Mawrth 2006, sef codi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl bobl sy'n ymwneud â thirweddau arfordirol gwarchodedig, yn lleol ac yn genedlaethol, o'r pynciau sy'n eu hwynebu a'r dulliau posibl o fynd i'r afael â'r heriau hynny yn y dyfodol.

Diben y llawlyfr hwn yw ateb yr her hon mewn tair ffordd:

1. drwy ddisgrifio'r math o gysylltiadau sy'n bodoli rhwng y tir a'r môr yn y cyd-destun hwn, a'u pwysigrwydd
2. drwy gynnig cyfres o egwyddorion ar gyfer cynorthwyo'r broses o gynllunio ac o reoli'r elfen honno o dirweddau arfordirol gwarchodedig sy'n ymwneud â'r môr
3. drwy gynnig agenda ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig yn y Deyrnas Unedig

Mae'r Gweithgor Arfordirol a Morol, a sefydlwyd gan *Europarc Atlantic Isles*, yn cynnwys aelodau o nifer o'r tirweddau arfordirol gwarchodedig yn y DU, o'r asiantaethau cadwraeth cenedlaethol ac o'r cyrff anlywodraethol. Bydd gwaith y Gweithgor yn ymwneud yn bennaf â'r broses o sicrhau fod y rhai hynny sy'n creu polisiau ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol yn mabwysiadu'r egwyddorion a'r agenda, sy'n cael eu hamlinellu ar dudalennau 14 ac 15.

Er bod y llawlyfr yn canolbwyntio ar brofiad y DU, mae'r Gweithgor yn gobeithio y bydd ei neges yn cael ei chlywed ledled arfordiroedd Ewrop, ac y bydd yr egwyddorion yn werthfawr i'r holl bobl hynny sy'n cynllunio ac yn rheoli'r ardaloedd pwysig hyn sy'n fan cyfarfod tir a môr.

**Edward Holdaway**

*Cadeirydd*

Y Gweithgor Arfordirol a Morol  
*Europarc Atlantic Isles*

**FFEDERASIWN EUOPARC**

Llais dros yr ardaloedd gwarchodedig yn Ewrop

Mae Europarc yn rhoi llais i'r ardaloedd gwarchodedig yn Ewrop. Mae'n uno parciau cenedlaethol, parciau rhanbarthol, parciau natur a gwarchodfeydd biosffer mewn 38 o wledydd, yn sgil ei nod cyffredinol o ddiogelu'r amrywiaeth unigryw o fywyd gwyllt, cynefinoedd a thirweddau sydd yn Ewrop.

**EUOPARC ATLANTIC ISLES**

Mae'n cydweithio gydag ardaloedd gwarchodedig a'u partneriaid yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a Gwlad yr Iâ er mwyn diogelu'r dreftadaeth naturiol a gwerthfawr sydd yn Ewrop.

Mae'n uno dros 60 o sefydliadau, o barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch eithriadol, i sefydliadau academaidd, cyrff anlywodraethol ac asiantaethau'r llywodraeth.

Os hoffech weld mwy o wybodaeth am y Ffederasiwn ac am *Europarc Atlantic Isles*, ewch i gael cipolwg ar eu gwefannau (ar gael yn Saesneg yn unig):

[www.euoparc.org](http://www.euoparc.org)

[www.euoparc-ai.org.uk](http://www.euoparc-ai.org.uk)



**EUOPARC**  
Atlantic Isles



Clawr:

Ar y Chwith: AHNE Dorset

Canol: AHNE Arfordir a Rhostir Suffolk

Ar y Dde: AHNE Arfordir Northumberland

© NTPL/Joe Cornish

**Diolch i:**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru am eu cymhorthdal hael  
Aelodau Gweithgor EAI: Golygydd Edward Holdaway  
gyda chymorth Phil Dyke, Mary Lewis, Tim Venes a  
Howard Davies

Natural England Photo library: Jayne Ellis

**Gwaith Dylunio:**

Tim Harvatt, Rockpool Design, Hwlffordd

**Lluniau:**

Natural England: T Burrows, D Burton, S Cook,  
I Dalgliesh, F Gibson, P Greenhall, A Hayward,  
T Heathcote, C Hedley, M Kipling, J Low, R Penny,  
B Stacey, C Shipsey, S Warner, M Williams

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Arddangosfa ar  
newid yn yr hinsawdd i'w gweld ar  
[www.nationaltrust.org.uk/exposed](http://www.nationaltrust.org.uk/exposed)

Cyngor Sir Penfro, Edward Holdaway

Mike Page – Scolt Head, [www.mike-page.co.uk](http://www.mike-page.co.uk)

**Mapiau:**

Natural England

Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro

## cyflwyniad

AHNE Arfordir Norfolk

### Cadwraeth yn amgylchedd y môr

Mae diddordeb mewn cadwraeth ym maes amgylchedd y môr yn cynyddu'n sylweddol ar nifer o wahanol lefelau:

#### Yn Rhyngwladol

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn darparu'r fframwaith ar gyfer amrywiaeth eang o fentrau sy'n mynd i'r afael â chadwraeth ym maes amgylchedd y môr. Yn ogystal â hyn mae confensiwn OSPAR ar Amgylchedd y Môr yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sefydlu system o ardaloedd morol gwarchodedig.

#### Yn Ewrop

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn paratoi strategaeth thematig Ewropeaidd ar gyfer diogelu a amgylchedd y môr ac ar gyfer cadwraeth yn y maes. Mae'r broses hon ar fin dod i ben, a bydd yn cael ei defnyddio fel rhan o'r strategaeth forol gyffredinol ar gyfer Ewrop, sydd hefyd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd.

Mae rhaglen *Natura 2000* wedi arwain at ddod o hyd i ardaloedd cadwraeth arbennig yn amgylchedd y môr.

#### Yn y DU

Mae'n bosib y bydd deddfwriaeth forol yn cael ei chreu yn y dyfodol agos a fydd yn mynd i'r afael â'r broses o gynllunio a rheoli amgylchedd y môr.

Bydd y diddordeb hwn yn amgylchedd y môr yn canolbwyntio ar y broses o sefydlu system gynhwysfawr ar gyfer cynllunio a rheoli amgylchedd y môr. Bydd y broses hon yn ymwneud â:

- chynllunio gofodol yn y môr
- ardaloedd morol gwarchodedig
- gweinyddiaeth gyd-gysylltiedig ar gyfer ardaloedd morol

### Tirweddau arfordirol gwarchodedig ac amgylchedd y môr yn y DU

Bydd y berthynas rhwng tirweddau arfordirol gwarchodedig a'u hamgylcheddau morol cysylltiedig yn cael ei hesgeuluso yn aml. Mae'n bwysig gwerthfawrogi a deall cryfder y berthynas hon, yn arbennig gan fod cynifer o dirweddau arfordirol gwarchodedig yn y DU, a chan fod eu rhinweddau unigryw yn deillio'n bennaf o amgylchedd y môr; yn wir, yn amlach na pheidio maent yn gysylltiedig â dyfroedd a ddynodwyd yn ardaloedd cadwraeth arbennig o dan raglen *Natura 2000* yr Undeb Ewropeaidd.

Rhoddwyd sylw i swyddogaeth y Parciau Cenedlaethol yn y DU mewn perthynas ag amgylchedd y môr:

- Yn yr Alban – ar hyn o bryd mae Cyfarwyddiaeth yr Alban yn rhoi ystyriaeth i'r broses o sefydlu parciau arfordirol a morol cenedlaethol
- Yng Nghymru – yn ddiweddar mae'r ddau Barc Arfordirol Cenedlaethol [Arfordir Penfro ac Eryri] wedi cyflwyno adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad sy'n datgan eu barn ynglŷn â'u swyddogaeth ym maes amgylchedd yr arfordir ac amgylchedd y môr
- Yn Lloegr – cafwyd trafodaeth ynghylch ehangu'r ardal arfaethedig ar gyfer Parc Cenedlaethol arfaethedig y Twyni Deheuol (*South Downs*) i gynnwys amgylchedd y môr, yn ystod ymchwiliad diweddar i'r cynnig hwnnw

### Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol


Er ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar amgylchedd y môr hyd yma, nid ydym wedi anwybyddu pwysigrwydd integreiddio'r broses o gynllunio a rheoli'r tir a'r môr. Yn 2002, cytunwyd ar argymhelliad gan yr Undeb Ewropeaidd y dylid rhoi Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar waith. Roedd yr argymhelliad yn annog Aelod-wladwriaethau i ymrwymo i weledigaeth gyffredinol ar gyfer dyfodol eu parthau arfordirol ac i fabwysiadu egwyddorion rheoli da yn y parth morol, yn unol â'r hyn a nodwyd yn Rhaglen Arddangos y Comisiwn ar Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Fel rhan o'r ymagwedd hon, gofynnodd yr Undeb Ewropeaidd i bob Aelod-wladwriaeth baratoi ei strategaeth ei hun erbyn mis Chwefror 2006. Cyn cychwyn y broses o baratoi'r strategaeth, roedd hi'n ofynnol i bob Gwladwriaeth gymryd stoc o Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn eu rhanbarth nhw. Cwblhawyd y broses hon yn y DU yn 2004, a bellach mae'r broses o baratoi strategaeth Reoli Integredig ar Barthau Morol ar gyfer gwledydd y DU ac ar gyfer y DU yn gyffredinol bron â dod i ben. Nid yw arwyddocâd tirweddau arfordirol gwarchodedig yn y broses hon wedi cael ei gydnabod hyd yma.

#### Y cyd-destun


Lluniwyd y llyfryn hwn yng nghyd-destun y posibilrwydd o sefydlu system newydd ar gyfer cynllunio a rheoli amgylchedd y môr a chynyddu'r broses o integreiddio rhwng y tir a'r môr. Bydd yn cynorthwyo'r broses o sefydlu swyddogaeth tirweddau arfordirol gwarchodedig mewn unrhyw system newydd a fydd yn cael ei sefydlu maes o law, ynghyd â'r broses o greu cysylltiadau rhwng y tir a'r môr.

## y math o dirweddau arfordirol gwarchodedig sydd yn y DU

Fel y dengys y map isod o dirweddau gwarchodedig yn y DU, mae cyfran helaeth o arfordir Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'n Barciau Cenedlaethol oherwydd ansawdd uchel eu tirweddau. Yn yr un modd, mae rhannau helaeth o arfordir yr Alban yn Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol, ac mae'n bosib y bydd rhai o'r ardaloedd hynny yn cael eu dynodi'n Barciau Arfordirol a Morol Cenedlaethol yn y dyfodol agos. Yn ogystal â hyn, mae rhannau helaeth o arfordir Cymru a Lloegr wedi cael eu dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth yn sgil y ffaith fod cyn lleied o ddatblygu wedi digwydd yno.



AHNE Gogledd Dyfnaint  
© NTPL/Joe Cornish



### Tirweddau gwarchodedig yn y DU

- Parciau Cenedlaethol a Llynnoedd Norfolk
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Ardaloedd Golygfaol Cenedlaethol yn yr Alban
- Ardordir Treftadaeth

Mae'r berthynas agos ag amgylchedd y môr wedi bod yn rhan allweddol o waith rhai tirweddau arfordirol gwarchodedig, er nad yw hyn wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol. Er enghraifft, Parc Arfordirol Cenedlaethol Penfro; Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol megis Ynysoedd Sili, Cernyw, Gogledd Dyfnaint, Harbwr Chichster, Arfordir Norfolk, Arfordir Northumberland, Arfordir Solway, Ynys Môn, Llŷn, Gŵyr, Arfordir a Dyffrynnoedd Strangford Lough; a rhai Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol yn yr Alban.

Mae arfordiroedd pwysig iawn gan rai ohonynt, ynghyd ag ardaloedd mewndirol o ansawdd uchel, er enghraifft, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol megis De a Dwyrain Dyfnaint, Dorset, y Twyni Deheuol (*South Downs*), Arfordir a Rhostir Suffolk; Parciau Cenedlaethol megis Exmoor, New Forest a Rhostiroedd Gogledd Swydd Efrog; a rhai Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol yn y Alban.

Ychydig rannau arfordirol yn unig sydd gan rai ardaloedd, er bod y rhannau hyn yn rhai nodedig, megis Arnside a Silverdale, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Twyni Caint (*Kent Downs*) a Pharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd.

Mae'r amrywiaeth o wahanol fathau o arfordiroedd yn enfawr, o glogwyni creigiog, caled gydag ambell draeth bach yma ac acw; i ynysoedd ar y môr; clogwyni isel, llyfn a thwyni tywod lle mae'r traethau'n fawr pan fo'r llanw ar drai; aberoedd â chanddynt ardaloedd rhynglanwol helaeth mynych; trefi a phentrefi hanesyddol a phorthladdoedd; a chyfuniadau dirifedi o'r holl nodweddion hyn.

AHNE Cernyw



PC Arfordir Sir Benfro



AHNE Arnsiau a Silverdale



AHNE Arfordir Northumberland




AHNE Cernyw






AHNE Bro Gŵyr  
© NTPL/Joe Cornish



AHNE Dorset



AHNE Ynysodd Sili



## mae'r ffiniau rhwng tir a môr yn amrywio'n fawr

▼ Mae rhai yn anodd eu dosbarthu, gydag ardaloedd rhynglanwol eang




PC Arfordir Sir Benfro

◀ Mae rhai yn hawdd i'w dosbarthu, gyda chlogwyni a dim traeth



AHNE Harbwr Chichester



AHNE Ynysoedd Sili



AHNE Dorset  
© NTPL/Joe Cornish

► Mae rhai yn gymhleth, gyda chlystyrau o ynysoedd bach a mawr ar y môr



▲ Mae rhai yn hawdd i'w diffinio, gyda thraeth a chlogwyni neu dwyni tywod yn gefndir iddynt

## y cysylltiad rhwng tir a môr

7

Mae rhinweddau arbennig tirweddau arfordirol gwarchodedig yn deillio'n bennaf o'r berthynas agos ag amgylchedd y môr. Mae'r cysylltiadau yn niferus ac yn amrywiol, ac mae modd eu hystyried o fewn cyd-destunau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag amgylcheddol:



AHNE Cernyw

- ▶ mae'r rhinweddau tirweddol/morol arbennig yn deillio o'r modd y mae'r môr yn newid yn barhaus, y golygfeydd eang a'r teimlad o fod mewn diffeithwch


ceir cysylltiadau cryf o safbwynt ecolegol; er enghraifft, mae adar sy'n nythu ac adar sy'n bwydo yn defnyddio'r tir a'r môr; mae pysgodfeydd morol yn dibynnu ar ardaloedd rhynglanwol ar gyfer silio ac ar gyfer meithrin; ac mae morloi'n defnyddio ardaloedd i fwydo yn y môr ac ardaloedd i orffwys ar y tir



AHNE Harbwr Chichester



AHNE Arfordir Norfolk  
© NTPL/Joe Cornish



AHNE Arfordir Solway

- ▶ mae'r prosesau naturiol sy'n digwydd yn amgylcheddau'r môr [megis erydu, dyddodi a chludo gwaddodion] yn effeithio ar ffurf yr arfordiroedd hyn

AHNE Arfordir Northumberland



AHNE Arfordir a Rhostir Suffolk



AHNE Arfordir Norfolk



AHNE Arfordir Northumberland

- ▶ mae ansawdd y dŵr yn effeithio ar y tir a'r môr fel ei gilydd

- ▶ ceir cysylltiadau cryf o safbwynt economaidd a chymdeithasol, gan fod nifer o gymunedau lleol yn byw ar y diwydiant bysgota ac ar dwristiaeth, a chan fod modd defnyddio dyfroedd lleol yn aml ar gyfer echdynnu tywod a graean, cynhyrchu pŵer drwy ddefnyddio'r llanw a'r gwynt, ynghyd â chynhyrchu olew a nwy



AHNE Arfordir Northumberland



AHNE Arfordir Northumberland



AHNE Ynys Wyth



AHNE Arfordir Northumberland



AHNE Dorset  
© NTPL/Joe Cornish



PC Arfordir Sir Benfro

- ▶ mae'r dyfroedd mewn rhai mannau yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden, yn aml lle mae mynediad i'r môr o'r lan, ac mae'r modd y gall pobl fwynhau golygfeydd yr arfordir o'r tir yn elfennau pellach o'r cysylltiadau rhwng y tir a'r môr




PC Arfordir Sir Benfro



AHNE Gogledd Dyfnaint



AHNE Arfordir Solway



AHNE Arfordir a Rhostir Suffolk

- ▶ ceir cysylltiadau cryf rhwng y môr a'r tir o safbwynt treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol

## materion a chyfleoedd sy'n wynebu tirweddau arfordirol gwarchodedig – yr heriau ar gyfer y dyfodol

Ym mis Mawrth 2006 cynhaliwyd seminar gan *Europarc Atlantic Isles* ym Manceinion, lle'r amlinellwyd amrywiaeth o faterion ac o gyfleoedd ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig. Yn gwyno, cawsant eu galw yn 'heriau ar gyfer y dyfodol'. Maent yn cynrychioli agenda penodol y bydd angen ei ddatblygu'n fanwl a'i roi ar waith, nid yn unig yn y tirweddau arfordirol gwarchodedig, ond gan eu sefydliadau cenedlaethol hefyd [Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Chymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol], gan asiantaethau cenedlaethol [Cyngor Cefn Gwlad Cymru, *Natural England* a *Scottish Natural Heritage*], gan y llywodraeth [ar lefelau cenedlaethol, datganoledig a lleol] a chan gyrrff anllywodraethol.

### Materion ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig

Yn ystod y seminar nodwyd bod angen mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n ymwneud â thirweddau arfordirol gwarchodedig, yn cynnwys:

#### Y cysylltiadau rhwng tir a môr

Mae rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn yn deillio'n bennaf o'r berthynas agos ag amgylchedd y môr – planhigion ac anifeiliaid a golygfeydd tanddwr. Mewn nifer o achosion mae'r tirweddau gwarchodedig hyn wedi'u hamgylchynu gan ddyfroedd sydd wedi cael eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan raglen *Natura 2000* yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt hwn yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, yn arbennig yn y modd y mae'r tirweddau gwarchodedig hyn yn cael eu penodi. Mae eu ffiniau a'u cynlluniau yn aml yn dod i ben wrth ymyl y dŵr.

#### Gwahanu tir a môr

Nid yw'r system bresennol o gynllunio a rheoli tirweddau arfordirol gwarchodedig wedi cael ei hintegreiddio gydag amgylchedd y môr, a cheir rhaniad artiffisial rhwng y systemau morol a thiol ar hyd y marc distyll. Yn ogystal â hyn, nid yw pwysigrwydd tirweddau arfordirol gwarchodedig yn cael ei gydnabod yn llawn ym mhrosesau cynllunio a rheoli amgylchedd y môr. Mae perygl mawr y byddwn yn ceisio cynllunio a rheoli'r tir, yr arfordir a'r môr ar wahân, yn hytrach nac fel uned ddi-dor.

Yr effaith y mae datblygu ac amrywiaeth o weithgareddau yn ei gael ar eu rhinweddau arbennig

Mae'r ardaloedd hyn yn bwysig iawn o safbwynt twristiaeth, gan fod defnyddio'r dyfroedd arfordirol at ddibenion hamdden a mwynhad yn denu ymwelwyr; er enghraifft, arfordiro, hwylio, plymio a syrffio. Yn ogystal â hyn, mae'r dyfroedd sy'n ochri â'r ardaloedd hyn naill ai'n cefnogi'r gweithgareddau hyn neu'n meddu ar y potensial i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau; er



AHNE Harbwr Chichester



AHNE Twyni Sussex

enghraifft, echdynnu tywod a graean, cynhyrchu pŵer drwy ddefnyddio'r llanw, y tonnau a'r gwynt, pysgota a chynhyrchu olew a nwy. Gall yr holl weithgareddau hyn gael effaith andwyol ar dirweddau arfordirol gwarchodedig os nad ydynt yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol.


#### Newid arfordirol

Mae'n bur debyg y bydd y newidiadau i siâp ac ansawdd yr arfordir yn sgil codiad yn lefel y môr a stormydd cynyddol, ac ati, yn un o'r materion pwysicaf y bydd yn rhaid i dirweddau arfordirol gwarchodedig fynd i'r afael ag ef, ac yn arbennig yr angen:

- i neilltuo gofod ar gyfer y newidiadau hyn ar yr arfordir
- am hyblygrwydd ar ran y tirweddau arfordirol gwarchodedig, a'r angen iddynt



AHNE Harbwr Chichester



PC Rhostiroedd Gogledd Swydd Efrog

- amlinellu'r nodweddion yr hoffent eu cadw
- am weledigaeth ar gyfer darganfod sut olwg fydd ar yr arfordir 'newydd'
- i gydnabod y ffaith y bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i'r newidiadau hyn ar raddfa eang iawn

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'n amlwg fod angen:

- dealltwriaeth well o lawer o amgylchedd y môr a'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu mewn i ffiniau dylanwadu ar dirweddau arfordirol gwarchodedig
- gwell dealltwriaeth o'r newidiadau ffisegol sydd yn digwydd ar yr arfordir
- cydnabod fod y newidiadau hyn yn digwydd ar hyn o bryd, ac nid yn y dyfodol yn unig

### Adnoddau

Nid oes gan dirweddau gwarchodedig yr holl sgiliau, yr amser na'r arian i fynd i'r afael â swyddogaeth ehangach yn eu hamgylcheddau morol cysylltiedig. Fodd bynnag, os ydym am fynd i'r afael â'r materion hyn yn llawn, bydd yn rhaid dod o hyd i adnoddau newydd, yn ogystal â sefydlu partneriaethau newydd er mwyn dod o hyd i'r arian a'r sgiliau sydd eu hangen. Yn ogystal â hyn, bydd y broses o ddatblygu rhaglenni hyfforddi yn allweddol.

### Cyfleoedd ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig

Mynd i'r afael â phrosesau cynllunio a rheoli presennol

Gall tirweddau arfordirol gwarchodedig fynd i'r afael â nifer o brosesau cynllunio a rheoli, yn bennaf:



- Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr – bydd y broses sydd bellach ar waith ar gyfer y Gyfarwydddeb yn cynorthwyo'r broses o ddod o hyd i gysylltiadau rhwng y tir a'r môr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn chwilio am gymorth gan nifer o sefydliadau er mwyn cynllunio a rhoi'r Gyfarwydddeb ar waith – bydd tirweddau arfordirol gwarchodedig yn medru cyfrannu a manteisio ar y broses hon
- Cynlluniau Rheoli'r Arfordir – mae ail rownd y Cynlluniau ar fin cychwyn. Gallent fod yn fodd allweddol i alluogi tirweddau arfordirol gwarchodedig i fynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â newidiadau ar yr arfordir, ac yn arbennig sut olwg sy'n debygol o fod ar yr arfordir yn y dyfodol

- Asesiadau Morluniau – mae technegau ar gyfer asesu'r effaith y mae datblygu morol yn ei gael ar yr arfordir yn cael eu datblygu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a *Scottish Natural Heritage*, ynghyd ag arbenigwyr yn y sector preifat. Gallai'r technegau hyn gael eu haddasu a'u cywreinio ar gyfer eu defnyddio gan dirweddau arfordirol gwarchodedig wrth gydgysylltu eu rhinweddau tirweddol/morluniol arbennig, ynghyd â'u hagwedd tuag at ddatblygu morol a gweithgareddau morol ac fel rhan o'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniadau Cynaliadwyedd
- Cynlluniau rheoli Ardaloedd Cadwraeth Pwysig yn y Môr – mae'r broses o baratoi'r cynlluniau hyn yn rhoi cyfle pwysig iawn i dirweddau arfordirol gwarchodedig i integreiddio'r broses o gynllunio a rheoli eu rhinweddau arbennig sy'n deillio o amgylchedd y môr â'r rheini sy'n deillio o amgylchedd y tir
- Partneriaethau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol – gallai'r broses o ddatblygu mentrau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol roi cyfle ychwanegol i dirweddau arfordirol gwarchodedig sicrhau bod eu hawydd i gydgysylltu'r tir a'r môr yn cael ei ystyried yn llawn

### Mynd i'r afael â pholisïau/camau'r asiantaethau cenedlaethol

Mae nifer o asiantaethau cenedlaethol naill ai wedi cwblhau neu wrthi'n paratoi polisïau neu raglenni gweithredu a fydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r hyn sy'n bwysig i dirweddau arfordirol gwarchodedig. Drwy ddylanwadu ar y cynlluniau a'r camau hynny, gallai tirweddau arfordirol gwarchodedig gryfhau eu safbwyntiau ar draws y bwlch sy'n bodoli rhwng y tir a'r môr, yn arbennig mewn perthynas â:


- **Natural England** – mae cyfrifoldebau'r sefydliad newydd hwn yn cynnwys amgylchedd y môr, a bydd yn datblygu ei bolisïau ar gyfer amgylchedd yr arfordir a'r môr yn y dyfodol agos, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â dyfodol yr Arfordiroedd Treftadaeth a Mynediad at yr Arfordir
- **Asiantaeth yr Amgylchedd** – mae'r Asiantaeth wedi cyhoeddi strategaeth forol sy'n mynd i'r afael â nifer o'r materion allweddol sy'n ymwneud ag amgylchedd y môr ac sy'n gysylltiedig â thirweddau arfordirol gwarchodedig

AHNE Arfordir a Dyffrynnoedd Gauseway  
© NTPL/Joe Cornish

## astudiaeth achos – Cymru ac arfordir Penfro

### Tirweddau arfordirol gwarchodedig yng Nghymru

Mae'r tirweddau arfordirol gwarchodedig yng Nghymru [Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri, yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ar Ynys Môn, yng Ngŵyr ac yn Llŷn, ac Arfordiroedd Treftadaeth Ceredigion a Morgannwg] yn cynnwys rhannau sylweddol o arfordir Cymru. Yn ogystal â hyn, mae pob un ohonynt, i raddau helaeth, wedi'u hymrwymyo i achos y môr



gan eu bod yn cynnwys dyfroedd sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan raglen *Natura 2000* yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ogystal â hyn, mae'r ardaloedd hyn yn bwysig iawn fel cyrchfannau i dwristiaid, gan fod y ffaith fod modd defnyddio a mwynhau'r dyfroedd yn rhan bwysig o'r broses o ddenu ymwelwyr. Maent hefyd yn cynnwys cymunedau sy'n dibynnu ar y cysylltiadau rhwng y tir a'r môr ar gyfer eu cynhaliath, ac mae pryder ynghylch parhad y cysylltiadau hynny. Mae'r dyfroedd cysylltiedig naill ai'n cynnal neu'n meddu ar y potensial i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, yn cynnwys pysgota, cynhyrchu nwy, cynhyrchu pŵer drwy ddefnyddio'r llanw a'r tonnau, ac echdynnu tywod.





## y ffordd ymlaen

### Y broses o gynllunio a rheoli amgylchedd y môr

Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i unrhyw system newydd ar gyfer cynllunio a rheoli amgylchedd y môr gydnabod yn llawn y cysylltiadau pwysig rhwng y tir a'r môr yng nghyd-destun tirweddau gwarchodedig. Mae ymdopi â'r cysylltiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymhleth, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer yr ardaloedd arbennig hyn, yn her enfawr. Mae'r Mesur Morol arfaethedig yn y DU yn gyfle pwysig i dirweddau arfordirol gwarchodedig sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol o'u safle yn y bwlch rhwng y tir a'r môr ac fel dulliau o'u hintegreiddio. Gallai eu rhan yn y broses o gynllunio a rheoli amgylchedd y môr gael ei roi ar waith drwy'r ffyrdd canlynol:

#### Ardaloedd Morol Gwarchodedig

- dylai'r dibenion y mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu penodi ar eu cyfer gwmpasu mwy na'r nodweddion bioamrywiol a ffisiograffig yn unig, er mwyn cynnwys nodweddion diwylliannol a hanesyddol yn ogystal â thirweddau a morluniau
- dylai unrhyw system o Ardaloedd Morol Gwarchodedig gynnwys ardaloedd morol/tirol gwarchodedig, integredig, yn cynnwys y broses o ehangu ffiniau'r tirweddau gwarchodedig presennol er mwyn cwmpasu eu diddordeb nhw yn amgylchedd y môr – bydd profiadau'r Alban o ran eu parciau arfordirol a morol cenedlaethol yn ddefnyddiol yn hyn o beth
- dylai'r system sicrhau bod gan yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig bwerau digonol, nid yn unig er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn medru cyflawni eu dibenion eu hunain, ond sicrhau hefyd bod gweithgareddau hamdden a thwristiaeth yn cael eu rheoli'n briodol.

#### Cynllunio Gofodol yn y Môr

- dylai'r tirweddau morol/morluniau sydd o bwys cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchodedig integredig, boed forol neu dirweddol,

sy'n cael eu penodi, feddu ar gynlluniau statudol sy'n rhan ffurfiol o brosesau'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig

- dylai cyd-destun morol y tirweddau arfordirol gwarchodedig presennol dderbyn cydnabyddiaeth briodol drwy'r broses o ehangu eu cynlluniau rheoli statudol ar gyfer cwmpasu'r ardal sydd o ddiddordeb iddyn nhw o ran amgylchedd y môr – dylai'r cynlluniau hynny fod yn rhan ffurfiol o brosesau'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- dylai dibenion unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fel sy'n cael ei nodi'n fanwl yn ei gynllun rheoli, gan gynnwys unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchodedig integredig sy'n ymwneud â'r môr neu'r tir, gael eu trin fel ystyriaethau materol gan y cyrff cyhoeddus hynny sy'n gwneud y penderfyniadau ynglŷn â rhoi cydsyniadau morol
- dylai egwyddorion Adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ac Adran 62 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995, fel sy'n gymwys ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr [fel ei gilydd], fod yn berthnasol i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n rhan o'r broses o gynllunio, rheoli a defnyddio amgylchedd y môr

#### Rheoli Integredig yn y Parth Arfordirol

- dylai system gyffredinol o Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol, wedi'i seilio ar statudau, gael ei sefydlu, fyddai'n sicrhau bod y cyd-destun morol/tirol yn cael ei integreiddio'n llawn ac yn darparu'r fframwaith a fydd yn galluogi rheolwyr yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig i sicrhau bod y broses integreiddio yn cael ei rhoi ar waith ar lefel leol
- wrth sefydlu unrhyw Ardal Forol Warchodedig integredig sy'n ymwneud â'r môr neu'r tir, rhaid sicrhau ei bod yn cynnal y broses o gynllunio ac o reoli'r tir a'r môr mewn modd integredig. Er enghraifft, pe bai terfynau'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol presennol yn cael eu hymestyn allan i'r môr, byddent yn fodd i sicrhau integreiddio ar hyd rhannau helaeth o'r arfordir

AHNE Dorset  
© NTPL/David Noton

### Egwyddorion ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig ac amgylchedd y môr

Dylai'r egwyddorion canlynol ar gyfer y broses o gynllunio a rheoli tirweddau arfordirol gwarchodedig mewn perthynas ag amgylchedd y môr gael eu mabwysiadu gan y rhai hynny sy'n gyfrifol ac yn rhan o ddyfodol yr ardaloedd arbennig hyn:

- mae lles y tirweddau arfordirol gwarchodedig yn y dyfodol, ynghyd â'u cymunedau, yn rhan hanfodol o ddyfodol eu dyfroedd cysylltiedig
- dylai'r system o gynllunio a rheoli'r ardaloedd hyn gael ei hintegreiddio â system amgylchedd y môr
- dylai tirweddau arfordirol gwarchodedig gysylltu â'r broses o gynllunio a rheoli amgylchedd yr arfordir a'r môr, ac â phrosesau Rheoli Integredig ar Barthau Arfordirol
- dylai unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisiau ar gyfer amgylchedd y môr ddarparu ar gyfer y broses o ffurfioleiddio rhan yr ardaloedd arbennig hyn mewn unrhyw drefniadau sy'n cael eu cytuno ynghylch cynllunio a rheoli amgylchedd yr arfordir a'r môr
- dylai tirweddau arfordirol gwarchodedig feddu ar ddealltwriaeth dda:

- o'r math o amgylchedd y môr y maent yn rhan mor hanfodol ohono
- o'r modd y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt
- o newidiadau arfordirol a sut i ddatblygu syniadau ar gyfer golwg unrhyw arfordir 'newydd' fydd yn ymddangos o bosibl
- dylai'r cynlluniau rheoli ar gyfer tirweddau arfordirol gwarchodedig fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng y tir a'r môr, yn arbennig drwy:
  - ddisgrifio'r rhinweddau arbennig sy'n deillio o'r cyswllt rhyngddynt ag amgylchedd y môr
  - amlinellu polisiau a gweithredoedd er mwyn sicrhau cadwraeth a rheolaeth o ran y rhinweddau arbennig hynny, ac yn arbennig o ran newidiadau arfordirol sy'n digwydd yn sgil newid yn yr hinsawdd

- darparu'r fframwaith er mwyn integreiddio cyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cyswllt rhwng y tir a'r môr
- dylid cynhyrchu pecyn gweithredu er mwyn rheoli'r cysylltiadau rhwng y tir a'r môr, rhoi technegau cynllunio a rheoli presennol ar waith a/neu eu haddasu i'w defnyddio ym maes amgylchedd y môr [er enghraifft, cynlluniau rheoli ac asesiadau tirweddol/morlunio], a datblygu rhai newydd lle bo'r angen
- dylai'r rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu tirweddau arfordirol gwarchodedig a'u cymunedau
- dylai'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o ddatblygu atebion i'r materion sy'n wynebu tirweddau arfordirol gwarchodedig
- dylai tirweddau arfordirol gwarchodedig gysylltu, yn ogystal ag arwain, lle bo hynny'n briodol, â phrosesau megis Rheoli Integredig ar Barthau Arfordirol, cynllunio'r glannau, cynlluniau sy'n cael eu paratoi o dan Gyfarwydddeb y Fframwaith Dŵr, cynllunio a rheoli ardaloedd morol cysylltiedig gwarchodedig

### Agenda ar gyfer y DU

Gall tirweddau arfordirol gwarchodedig yn y DU, yn unigol ac ar y cyd ag eraill, fynd i'r afael â'r materion hyn yn y tymor byr drwy:

- sicrhau bod yr egwyddorion uchod yn cael eu mabwysiadu gan yr holl bobl sy'n rhan o ac sy'n gyfrifol am dirweddau arfordirol gwarchodedig ar lefel genedlaethol a lleol
- dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisiau arfordirol ym mhob gwlad sy'n rhan o'r DU, ac yn arbennig yn y rhai hynny sy'n rhan o *Natural England* ac o arolwg polisiau Arfordir Treftadaeth yng Nghymru a Lloegr
- cysylltu â chyrff cyhoeddus ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r arfordir wrth fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau i'r Parciau Cenedlaethol o dan Adran 62 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995, ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o dan Adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

- manteisio ar y cyfle a ddarparwyd gan y Mesur Morol i ffurfioleiddio eu safle yn y prosesau cynllunio/cydsynio gofodol yng nghyd-destun y môr, ac fel rhan o unrhyw system ardaloedd morol gwarchodedig
- manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan y mentrau cynllunio a rheoli presennol, megis Cyfarwydddeb y Fframwaith Dŵr a Chynlluniau Rheoli Traethlin
- sefydlu achosion yn seiliedig ar dystiolaeth dros gael adnoddau, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau ehangach.

